

Angladdau Sifil

gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam





Beth Yw Angladd Sifil?

Mae'n hollol wahanol i unrhyw fath arall o angladd. Mae dyneiddwyr yn cau allan unrhyw grefydd neu feddyliau o fywyd tragwyddol tra bo gwasanaeth hollol grefyddol yn gallu bod yn rhy gyfyngol a gormod ynghlwm wrth ei dogma grefyddol i roi'r cysur y mae teulu galarus ei angen ar y pryd.

Mewn Angladd Sifil fe all y Gweinydd ddod i'ch cartref a'ch tywys trwy'r cynnwys a'r ffurf i roi'r gwasanaeth a fynnwch.

Os ydych eisiau gweddi neu emyn – gallwch gael un.



Os ydych eisiau sôn am gyfarfod eich anwylyd eto yn y byd a ddaw – fe allwch.

Os ydych eisiau gwasanaeth hollol anffyddiol – gallwch ei gael.

Rydym eisiau dathlu bywyd eich anwylyd trwy eich myfyrdodau a chyd-atgofion, helpu i chi nodi'r weithred gyhoeddus olaf ym mywyd eich anwylyd mewn ffordd sy'n ystyrlon i chi.

Creu eich gwasanaeth

Bydd Gweinydd Angladdau Sifil naill ai'n ymweld â'ch cartref neu, os dymunwch, gallwch gyfarfod yn Swyddfa Gofrestru Wrecsam.

Mae'r cyfarfod yn anffurfiol iawn, yn gwrando ar atgofion eich teulu ac adegau arwyddocaol ym mywyd eich anwylyd – pethau y byddech yn hoffi tynnu sylw atynt yn y gwasanaeth.



Byddwn yn helpu i chi ddewis cerddi neu ddarlleniadau a gwneud awgrymiadau ar ei roi i gyd at ei gilydd ar ffurf sy'n gweddu i chi.

Gwasanaeth nodweddiadol

Cofiwch fod hyn yn hollol hyblyg.

- Cerddoriaeth Agoriadol
- Geiriau o Groeso
- Darlleniadau / Cerddi / Emynau - i gyd yn ddewisol
- Prif Deyrnged / Araith
- Myfyrdod Tawel - cerddoriaeth ddewisol
- Ennyd Ffarwelio pan ddywedir gair neu ddau o ddiolch am fywyd eich anwylyd
- Sylwadau Terfynol
- Cerddoriaeth i Gloi

Fel arfer caiff y deyrnged ei hysgrifennu a'i chyflwyno gan y Gweinydd Angladdau Sifil, gan dynnu sylw at adegau ym mywyd eich anwylyd. Fodd bynnag, os dymunwch, gall aelod o'r teulu neu gyfaill agos

ei chyflwyno yn lle neu yn ogystal â'r brif deyrnged.

- Eich gwasanaeth chi yw o, a bydd yn union fel y dewiswch.

Fel arfer byddwn yn e-bostio copi o'r gwasanaeth llawn atoch 24 awr cyn yr angladd (neu'n dod ag ef â llaw os nad oes gennych e-bost). Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi gywiro unrhyw wallau a gwneud ychwanegiadau neu bersonoli.

Seremonïau angladd arbenigol

Weithiau mae adegau pan na fydd geiriau fyth yn ddigon.

- Marwolaeth baban, plentyn neu oedolyn ifanc
- Pan fydd rhywun yn gwneud amdanynt eu hunain
- Pan fydd rhywun wedi dioddef trosedd

Nid dyma sut ydym yn rhagweld 'trefn naturiol' pethau.



Gallwn greu gwasanaeth sy'n cydnabod hyn; y blaguryn na fydd fyth yn blodeuo; y breuddwydion a ddrylliwyd a'r 'pam' mewn hunanladdiad.

Byddwn yn dewis geiriau sy'n ystyrllon ac yn addas i'ch teulu. Bwriad y geiriau yn yr angladd yw eich cysuro yn eich tristwch ac adlewyrchu'r llawenydd a ddaeth eich anwilyd i'ch bywyd.

Ffioedd

Mae Gwasanaeth Angladd Sifil trwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn costio £110 ac mae'n cynnwys ymweld â'ch cartref, gwasanaeth a theyrnged a ysgrifennwyd yn bersonol a chopi drafft o'r gwasanaeth ymlaen llaw. Ar ddiwrnod yr angladd byddwch yn cael copi o'r araith angladdol.

Cysylltu

Ffôn: 01978 292027

e-bost: civilfunerals@wrexham.gov.uk

Gwefan: www.wrecsam.gov.uk/angladdausifil

